Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Brechlyn ffliw

## Pecyn Cymorth Cyfathrebu

### I ysgolion sy'n addysgu plant o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 11



GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys


03 Y BRECHLYN FFLIW

04 SUT Y GALLWCH HELPU

05 NEGESEUON

06 POSTERI A THAFLENNI

07 ASEDAU DIGIDOL

08 DYWEDWCH WRTHYM BETH A WNAETHOCH

09 CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

# Y brechlyn ffliw

**Brechu rhag y ffliw yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn plant oedran ysgol yn erbyn dal a lledaenu'r ffliw.**

Caiff y brechlyn ffliw ei gynnig i bob plentyn o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 11 (yn gynhwysol).

Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu brechlyn ar ffurf chwistrell drwynol gyflym a di-boen, lle y caiff tarth mân ei chwistrellu i fyny'r trwyn o flaen pob ffroen. Gall plant a phobl ifanc sydd methu cael y chwistrell drwynol, neu sy'n well ganddynt frechlyn heb gelatin, gael y brechlyn ffliw ar ffurf pigiad yn lle hynny.

Gall y ffliw ledaenu'n gyflym drwy ysgolion ac achosi salwch difrifol mewn rhai plant. Mae'r brechiad ffliw am ddim yn lleihau'r risg honno.

**Rhagor o wybodaeth: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw**

# Sut y gallwch helpu

## Pedair ffordd y gallwch gefnogi'r ymgyrch:

- ✓ Rhannu negeseuon â rhieni drwy e-bost neu neges destun
- ✓ Arddangos posteri a thaflenni mewn derbynfeydd
- ✓ Rhannu deunyddiau ar gyfryngau cymdeithasol neu apiau
- ✓ Trafod brechu rhag y ffliw â phlant a rhieni

# Negeseuon

## Defnyddiwch y negeseuon parod isod i annog brechu rhag y ffliw ymhlith eich cynulleidfaoedd.

CYLCHLYTHYR

### Copi a awgrymir ar gyfer cylchlythyr

Wrth i dymor y ffliw agosáu, rydym am i bob teulu gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i helpu i ddiogelu iechyd eu plant. Gall y ffliw ledaenu'n gyflym mewn amgylchedd ysgol a gall achosi salwch difrifol mewn plant.

Yr hydref hwn, caiff pob plentyn ysgol o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 11 (yn gynhwysol) gynnig brechlyn ffliw chwistrell drwynol gyflym ac am ddim yn yr ysgol. Mae'r brechlyn ffliw chwistrell drwynol yn ddiogel ac yn ddi-boen, a helpodd i amddiffyn mwy na 220,000 o blant oedran ysgol yng Nghymru y llynedd.

Mae rhoi caniatâd i'ch plentyn gael y brechlyn ffliw yn helpu i'w gadw'n iach, gan leihau'r risg o salwch a allai amharu ar ei ddysgu, ei chwarae a'ch bywyd teuluol. Y brechlyn ffliw chwistrell drwynol yw'r brechlyn a argymhellir i blant a phobl ifanc, ond os na allant gael y brechlyn ffliw neu os yw'n well gennych frechlyn heb gelatin, gallant gael y brechlyn ffliw ar ffurf pigiad yn lle hynny.

**Rhowch caniatâd i'ch plentyn gael y brechlyn ffliw er mwyn helpu i'w gadw'n iach y gaeaf hwn**

I gael rhagor o wybodaeth am frechu rhag y ffliw, ewch i: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

NEGES DESTUN NEU WHATSAPP

### Copi a awgrymir ar gyfer neges destun neu WhatsApp

Mae tymor y ffliw ar y ffordd! Gall y ffliw ledaenu'n gyflym mewn ysgolion a gall achosi salwch difrifol mewn plant. Caiff plant ysgol gynnig brechlyn ffliw chwistrell drwynol cyflym a di-boen am ddim yn yr ysgol y tymor hwn. Rhowch eich caniatâd i'ch plentyn gael y brechlyn ffliw er mwyn helpu i'w gadw'n iach y gaeaf hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

### CANLLAW NEGESEUON LLAWN

Lawrlwythwch y negeseuon allweddol ar gyfer plant oedran ysgol a'u rhieni – a'u rhannu yn y ffordd rydych yn gwybod sy'n gweithio orau gyda'ch cymuned.

Lawrlwytho'r negeseuon:

Gall y negeseuon hyn gefnogi eich sgyrsiau â phlant a rhieni.

# Posteri a Thaflenni

POSTERI




## Posters:

Gallwch gael posteri wedi'u hargraffu a'u danfon i'ch cyfeiriad, neu eu lawrlwytho a'u hargraffu eich hun.

**Meintiau sydd ar gael:**
A3

Archebu posteri

Archebu posteri

TAFLENNI




## Taflenni:

Hyrwyddwch y brechlyn ffliw drwy arddangos taflenni mewn derbynfeydd ac ardaloedd staff.

**Wedi'u hargraffu a'u danfon i'ch cyfeiriad.**

Archebu taflenni

# Asedau Digidol

Lawrlwythwch graffigwaith parod a defnyddiwch ein testun a awgrymir i hyrwyddo'r brechlyn ffliw ar eich cyfryngau cymdeithasol a'ch apiau cyfathrebu a dysgu.

**DELWEDDAU A FIDEOS**




**Neges a awgrymir**

Mae'r brechlyn ffliw chwistrell drwynol yn ddiogel ac yn ddi-boen, a helpodd i amddiffyn mwy na 220,000 o blant oedran ysgol yng Nghymru y llynedd.

Rhowch eich caniatâd i'ch plentyn gael y brechlyn ffliw er mwyn helpu i'w gadw'n iach y gaeaf hwn

Rhagor o wybodaeth:
icc.gig.cymru/brechlyn-ffliw

Lawrlwytho'r Asedau Digidol

## ESBONIO BRECHU RHAG Y FFLIW

A oes gennych gwestiynau am frechlyn ffliw'r ysgol? Gwyliwch ein fideo holi ac ateb byr, lle mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn trafod manteision y brechlyn.




Gwylio'r fideo

# Dywedwch wrthym beth a wnaethoch

Byddem wrth ein bodd yn clywed sut y gwnaethoch gefnogi'r ymgyrch frechu rhag y ffliw y gaeaf hwn – a sut yr ymatebodd eich cynulleidfa.

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall effaith yr ymgyrch yn well, beth y gallwn ei wella a sut y gallwn weithio'n well gyda sefydliadau fel eich un chi yn y dyfodol.

P'un a wnaethoch rannu neges ar gyfryngau cymdeithasol, gosod poster neu siarad yn uniongyrchol â staff neu ddefnyddwyr gwasanaethau, mae pob gweithred yn cyfri – ac rydym am glywed beth a wnaethoch.

**Llenwch ein ffurflen adborth fer**

Dim ond pum munud y mae'n ei gymryd i'w llenwi.

# Cadwch mewn cysylltiad

**Diolch am ein helpu i amddiffyn pobl yng Nghymru rhag y ffliw.**

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, neu i drafod cyfleoedd i gydweithio, cysylltwch â:

**communications.team@wales.nhs.uk**